**Myfyrdod**

Trwydded i'w ladd
'Yr enw yw Iesu, Crist Iesu (001)
Trwyddedwyd... i'w ladd.'

Mae'r bobl yn bonllefain arnat: 'Achub ni!'
'Bendigedig yw'r Un sy'n dod yn enw'r archbŵer!'
Mae'r bobl yn disgwyl rhywbeth dramatig.
Ac fe gânt ddramatig, ond nid yn union fel y maent yn ei ddisgwyl.
Rwyt ti'n gwneud pethau mewn ffyrdd gwahanol, yn dy steil dy hun.

Dyw'r Aston Martin ddim i ti na'r pecyn-jet nefol.
Dyw'r bywyd bras, y pŵer, yr arfau,
y dillad moethus, y trawiadau slic,
dydyn nhw ddim i ti.

Rwyt ti ar ffordd lawer mwy cyffredin.
Rwyt ti'n symud ar y stryd, gyda'r bobl gyffredin.
Nid i ti y bywyd bras gyda rheolwyr a brenhinoedd.
Na, nid i ti.

Agoraist y pyrth
er mwyn i eraill gael mynediad gyda thi,
does dim angen côd cudd,
diddymaist yr angen am hynny.

A daeth y bobl.
Daethant y diwrnod hwnnw yn Jerwsalem.
Maent wedi dod byth ers hynny.
'Hosanna – achub ni!'

Iesu, Crist Iesu.
Does neb yn rhagori arno.
Amen.

***O Llawlyfr Gweddi 2004–2005***